**Jane Hutt AC / AM**
**Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth**
**Minister for Finance and Government Business**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-577
Ein cyf/Our ref JH/00024/15

William Powell AC
Aelod Cynulliad dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

committeebusiness@cymru.gsi.gov.uk

30 Ionawr 2015

Annwyl William,

Diolch am eich llythyr a dderbyniwyd ar 12 Ionawr, gan gynnwys sylwadau pellach gan Mr Aled Davies, y Deisebydd i'r Pwyllgor, ynghylch y Fenter Trawsnewid i Gyflogaeth AAA Rhanbarthol (prosiect Cyfleoedd Gwirioneddol), a gafodd gymorth drwy gronfeydd yr UE 2007-2013.

Rwy'n falch bod Mr Davies wrthi'n trafod â Chyngor Caerffili am eu cynnig ar gyfer prosiect dilynol i gael cymorth cronfeydd yr UE. Mae fy swyddogion yn Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) wedi rhoi sicrwydd imi eu bod yn parhau i weithio gyda Chyngor Caerffili i wneud yn siŵr bod y cais am gymorth cronfeydd yr UE yn mynd rhagddi, ac maent yn disgwyl derbyn drafft cyntaf o'r Cynllun Busnes erbyn diwedd y mis hwn.

Er fy mod yn gwerthfawrogi'r gwaith ardderchog sy'n cael ei wneud gan 'The Mix, nid yw yn rhinwedd fy rôl fel Gweinidog i gymeradwyo na dethol cynigion prosiectau ar gyfer cymorth ariannol yr UE. Yn sgil hynny, ni fyddai cynnal cyfarfod â Mr Davies - pe dymunai wneud cais am gymorth ariannol yr UE neu geisio cael cymorth ariannol arall y tu allan i brosiect dilynol Cyfleoedd Gwirioneddol - yn briodol ar hyn o bryd. Pe dymunai'r Mix archwilio cyfleoedd cymorth ariannol yr UE yn annibynnol i brosiect Cyfleoedd Gwirioneddol, yna byddwn yn parhau i awgrymu bod Mr Davies yn cysylltu â WEFO yn uniongyrchol am gyngor.

Yn gywir,
Jane

**Jane Hutt AC / AM**
Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@cymru.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*